# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Hawliau Dynol gan Lywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad ar Strategaeth Genedlaethol 2022-2026 Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010

Mae Strategaeth Genedlaethol ddrafft Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Trais a Cham-drin) yn nodi ein cynigion i newid y diwylliant ynghylch trais a cham-drin a'r ymateb iddo yng Nghymru yn barhaol, gwella'r gefnogaeth i oroeswyr a'u plant, ac atal troseddu ac aildroseddu. Credwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, amcangyfrifir bod 2.3 miliwn o oedolion yn y DU rhwng 16 a 74 oed wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (1.6 miliwn o fenywod a 757,000 o ddynion). Mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na'r flwyddyn gynt, ond nid yn sylweddol felly.

Rydym yn argymell dull Cymru gyfan, gan ddwyn ynghyd sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, yn ogystal â chyrff datganoledig a chyrff nad ydynt wedi'u datganoli. Bydd gweithio gyda'n partneriaid – datganoledig a heb eu datganoli – gan ddefnyddio model 'Glasbrint' yn ein galluogi i adolygu'r hyn a wnawn yn barhaus, ac i fonitro a gwerthuso canlyniadau ein gweithgarwch. Rydym yn bwriadu i'r Strategaeth fod yn ddogfen 'fyw', y gellir ei haddasu i ateb heriau newydd gydol pum mlynedd ei hoes.

Byddwn yn gweithio i sicrhau gwell dealltwriaeth o drais a cham-drin – gyda'r cyhoedd a chyda gweithwyr proffesiynol.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor o sefydliadau partner allweddol i adolygu cynnydd yn erbyn y Strategaeth bresennol, rhwystrau rhag cyflawni ei hamcanion a newidiadau yn y tirlun o ran polisi a all effeithio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae ein partneriaid wedi gallu cynrychioli anghenion a safbwyntiau'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau a'r darparwyr gwasanaethau eu hunain. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir ar y Gweithgor yn cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchodedig, ac yn cynnwys yr NSPCC, Cymorth i Ferched Cymru, Bawso a Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth i lywio ein dull gweithredu, fel yr hyn a gasglwyd yn yr adroddiad [Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?] a gyhoeddwyd gan Uned Atal Trais Cymru. Byddwn yn creu 'storfa ganolog o wybodaeth' i gydgysylltu a lledaenu'r hyn a wyddom am drais a cham-drin ac i lywio ymchwil yn y dyfodol.

Ein prif nod yw lleihau cyfraddau trais a cham-drin yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â'r Strategaeth Genedlaethol, byddwn yn monitro cynnydd drwy gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol.

Un o'r camau gweithredu arfaethedig a gynhwysir yn y Strategaeth ddrafft yw creu 'storfa ganolog o wybodaeth' i gydgysylltu a lledaenu'r hyn a wyddom am drais a cham-drin ac i lywio ymchwil yn y dyfodol. Byddwn yn gofyn i'r Storfa ystyried y dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â chydraddoldeb.

Bydd ein cynigion yn cael effaith ar gyrff cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag unigolion. Y grwpiau mwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn ein Strategaeth yw:

- Dioddefwyr / goroeswyr
- Cyflawnwyr / cyflawnwyr honedig
- Yr Heddlu/ Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu / Gwasanaethau Barnwrol / Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
- Gwasanaethau cymorth trais a cham-drin / grwpiau cynrychioliadol (y sectorau preifat a chyhoeddus, a'r trydydd sector).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig sydd gan bawb. Mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu yn y gweithle, pan fyddant yn defnyddio busnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau a phan fyddant yn ymwneud â chyrff cyhoeddus.

Dylai pob sefydliad cyhoeddus, preifat a thrydydd sector fod yn ymwybodol o'r hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei wneud yn ofynnol ganddynt. Mae hyn yn berthnasol o safbwynt gwahaniaethu uniongyrchol, fel pan fydd sefydliad yn rhoi rheol neu bolisi ar waith sy'n cael effaith waeth ar rywun sydd â nodwedd warchodedig na rhywun heb un, a gwahaniaethu anuniongyrchol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i sefydliadau'r sector preifat hefyd gydymffurfio â dyletswydd os ydynt yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Pan fo ein cynigion efallai yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau adolygu'r ffordd y maent yn ymgymryd â thasgau penodol, byddem yn disgwyl iddynt ystyried yr effaith ar gydraddoldeb wrth ddiwygio gweithdrefnau neu bolisïau sy'n bodoli eisoes. Ein dull o weithredu fydd annog cydweithio a chydgynhyrchu gyda'n partneriaid wrth i ni symud ymlaen gyda'n cynigion, felly nid ydym yn rhagweld y bydd yr angen i adolygu eu gweithdrefnau cydraddoldeb eu hunain yn unol â'r newidiadau arfaethedig sy'n deillio o'r Strategaeth yn cael effaith sylweddol ar sefydliadau.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol, ac yn anuniongyrchol, gan drais a cham-drin i ddeall beth yw eu barn am y Strategaeth ddrafft. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y digwyddiadau ymgynghori yn agored ac yn hwylus i bawb.

Byddwn yn croesawu tystiolaeth i gefnogi ein cynigion, neu awgrymiadau eraill, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith bosibl ein cynigion ar gydraddoldeb.

Byddwn yn diweddaru ein hasesiadau effaith yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r Strategaeth derfynol yn 2022.

## Cofnod o'r effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran | Bwriedir i Strategaeth Trais a Cham-dringwmpasu pob oedran, er bod rhai ystodau oedran yn fwy tebygol o ddioddef trais a cham-drin.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi rhai grwpiau oedran dan anfantais.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. | Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020[1] fod menywod 16-19 oed yn llawer mwy tebygol o ddioddef unrhyw gam-drin domestig na menywod hŷn. Prin oedd y gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran i ddynion.<br><br>Prin fu'r astudiaethau yn y DU sy'n archwilio nifer yr achosion o gam-drin pobl hŷn.<br>Dengys data'r Arolwg Troseddu ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn eu herbyn, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fod cyfran y troseddau yn erbyn person a nodwyd fel rhai sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn tueddu i ostwng po hynaf yn byd yr oeddent.<br>I ddynion, roedd cyfran y troseddau treisgar a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn tueddu i gynyddu gydag oedran dioddefwyr. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau oedran penodol.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

[1]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd[2] | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Gall bod yn agored i niwed oherwydd anabledd wneud person anabl yn llai galluog i adnabod, rhoi gwybod am neu ddianc rhag trais a cham-drin. Gallant hefyd wynebu mwy o rwystrau rhag cael gafael ar gymorth.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl anabl dan anfantais. | Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020[3] fod oedolion 16-74 oed ag anabledd yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r rhai heb anabledd.<br>Roedd menywod a oedd yn anabl yn fwy tebygol o fod wedi profi unrhyw gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (15%) o gymharu â menywod nad oeddent yn anabl (6%).<br><br>Yn 2015/16, amcangyfrifodd SafeLives fod pobl anabl yn cael eu tangynrychioli mewn gwasanaethau cam-drin domestig, er eu bod ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig.<br><br>Nododd gwaith ymchwil yn 2008 (Hague et al, Cymorth i Ferched Cymru) fod menywod anabl neu'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn mwy o berygl. Gall menywod anabl fod tua dwywaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad neu o gael eu treisio, ac mae'n bosibl fod mwy na hanner yr holl fenywod ag anabledd wedi profi rhyw fath o drais domestig yn ystod eu hoes. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl anabl, ond byddwn yn sicrhau bod ffocws ar anghenion penodol dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin o grwpiau lleiafrifol neu ymylol, fel pobl anabl.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

[2] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Deallwn nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'

[3]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl sydd yn y broses o newid na phobl drawsryweddol dan anfantais. | Prin yw'r ymchwil ar faint o bobl drawsryweddol sy'n profi trais a cham-drin yn y DU.<br><br>Dangosodd adroddiad gan Gynghrair Traws yr Alban a gyhoeddwyd yn 2010 fod 80% o bobl drawsryweddol wedi dioddef rhyw fath o drais a cham-drin gan bartner neu gyn-bartner, er mai dim ond 60% ohonynt oedd yn cydnabod yr ymddygiad fel cam-drin domestig.<br>Y math o gam-drin domestig a brofwyd amlaf gan yr ymatebwyr i'r ymchwil oedd cam-drin emosiynol trawsffobig, gyda 73% o'r ymatebwyr yn profi o leiaf un math o gam-drin emosiynol trawsffobig gan bartner neu gyn-bartner.<br><br>Canfu arolwg cenedlaethol o bobl LHDT a gynhaliwyd yn 2017 fod ymatebwyr traws yn adrodd am gyfradd uwch o lawer o'r rhan fwyaf o fathau o achosion a oedd yn ymwneud â phobl yr oeddent yn byw gyda nhw. Roedd dynion trawsryweddol yn arbennig yn fwy tebygol o fod wedi profi digwyddiad na menywod trawsryweddol ac ymatebwyr anneuaidd.<br>Yn achos yr holl ymatebwyr, roedd aflonyddu a thrais corfforol, aflonyddu a thrais rhywiol, a bygythiadau o hynny, yn gyffredinol yn fwy tebygol o beidio â bod wedi'u cofnodi na mathau eraill o achosion oherwydd teimladau o gywilydd neu embaras, bod yn ofidus, meddwl na fyddai adroddiad am y | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl sydd yn y broses o newid na phobl drawsryweddol.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | digwyddiad yn cael ei gymryd o ddifrif, neu rhag ofn dial. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth. | Canfu astudiaeth yn 2002 ar gam-drin yn ystod beichiogrwydd a llofruddio benywod: goblygiadau brys i iechyd menywod (McFarlane et al, 2002) dystiolaeth o gysylltiad profedig rhwng camdriniaeth yn ystod beichiogrwydd a siawns y fam o gael ei lladd gan y cyflawnwr.<br><br>Mae trais a cham-drin yn drosedd sy'n cael ei thanadrodd, felly mae'n anodd asesu nifer yr achosion yn gywir, ond canfu astudiaeth (Why Mothers Die 2000-2002 gan yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) fod tua 30% o gam-drin domestig yn dechrau yn ystod beichiogrwydd. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Hil | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais oherwydd eu hil na statws mudol. | Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod y rhai yn y grŵp ethnig Cymysg yn llawer mwy tebygol na'r rhai yn y grwpiau ethnig Du neu Asiaidd o brofi cam-drin domestig. Yn y grwpiau ethnig Gwyn, Cymysg a Du, roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o fod wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai menywod o grwpiau ethnig cymysg sydd fwyaf tebygol o brofi cam-drin domestig er bod menywod o grwpiau eraill fel Asiaid yn llai tebygol o fynd at yr asiantaethau statudol. | Efallai fod rhai cymunedau wedi bod yn fwy agored i niwed oherwydd natur ynysig rhai cymunedau, disgwyliadau diwylliannol a materion fel diffyg cyfleusterau cyfieithu addas.<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn llai tebygol o chwilio am gymorth, a allai olygu bod budd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'r menywod hyn yn gyfyngedig.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod grwpiau rhanbarthol yn ystyried hyn ac yn gweithio i annog mwy o fenywodi roi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Yn ôl Walby ac Allen 2004, nid oes fawr o amrywiad yn nifer yr achosion o drais domestig yn ôl ethnigrwydd.<br>Canfu Batsleer, et al 2002 a Rai a Thiara, 1997 fod cymunedau Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig eraill yn llai tebygol o fanteisio ar wasanaethau statudol.<br>Canfu adroddiad gan Gymdeithas Feddygol Prydain 2014 i gam-drin domestig dystiolaeth i awgrymu bod menywod du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cam-drin am gyfnod hwy ac yn fwy amharod i fanteisio ar wasanaethau.<br><br>Nid oes gan y rhan fwyaf o geiswyr lloches a wrthodwyd hawl i unrhyw fath o gymorth ariannol sy'n gadael llawer o fenywod mewn perygl mawr o fod yn ddiymgeledd a phrofi trais. Heb ganiatâd i weithio, cânt eu gorfodi i ddod o hyd i strategaethau goroesi eraill fel gwaith anghyfreithlon neu gardota ac maent yn fwy tebygol o ymrwymo i berthnasoedd ffrwydrol neu lle cânt eu cam-drin, neu aros mewn perthynas o’r fath, cael rhyw ar sail cytundeb materol neu droi at buteindra i oroesi. | gwybod am achosion i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau priodol.<br><br>Un o'r blaenoriaethau uniongyrchol yn y Strategaeth yw parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i ddod o hyd i atebion priodol i ddiwallu anghenion goroeswyr trais a cham-drin sydd heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus oherwydd statws mewnfudo yn unol â Chynllun Gweithredu Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais oherwydd eu crefydd neu eu credoau. | Yng Nghyfrifiad 2011, Cristnogaeth oedd y grŵp crefyddol mwyaf yng Nghymru a Lloegr gyda 33.2 miliwn o bobl (59% o'r boblogaeth). Yr ail grŵp crefyddol mwyaf oedd Moslemiaid gyda 2.7 miliwn o bobl (5 %). Cyfran y bobl a ddywedodd nad oedd ganddynt grefydd | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd neu eu credoau.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oedd 14.1 miliwn o bobl (25%). Yn 2011, roedd dros naw o bob deg o Gristnogion yng Nghymru a Lloegr yn Wyn (93%) yn cyfrif am 30.8 miliwn o bobl.<br><br>Prin yw'r ymchwil ar y berthynas rhwng credoau crefyddol a dioddef cam-drin domestig yn y DU. Er enghraifft, nododd adroddiad yn 2011 ar briodas dan orfod yn Luton fod priodas dan orfod wedi'i harfer yn hanesyddol mewn llawer o wahanol gymunedau. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad, oherwydd eu maint cymharol o fewn poblogaeth y DU, fod priodas dan orfod bellach yn fwyaf cyffredin yn y DU ymhlith cymunedau De Asia (De Asiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd ac Indiaidd). Mae priodas dan orfod yn torri hawliau dynol ac fe'i gwelir yn y DU fel math o drais domestig. | dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |
| Rhyw / Rhywedd | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb, waeth beth fo'u rhyw / rhywedd.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais oherwydd eu rhywedd.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. | Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod menywod a dynion yn dioddef ac yn goroesi trais a cham-drin, tra'n cydnabod bod effaith anghymesur ar fenywod.<br><br>Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod 1.6 miliwn o fenywod a 757,000 o ddynion 16-74 oed wedi profi cam-drin domestig.<br>Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o ddioddef pob math o gamdriniaeth na | Dylai staff asiantaethau statudol fod yn ymwybodol y gall dynion hefyd ddioddef cam-drin domestig a sicrhau eu bod yn cymryd honiadau gan ddynion yr un mor ddifrifol â rhai gan fenywod, gan gynnig cyngor a chymorth priodol.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dynion, ac eithrio ymosodiad rhywiol gan aelod o'r teulu lle nad oedd y gwahaniaeth yn sylweddol, er fod y gyfran yn uwch.<br>Er enghraifft, roedd 6.7% o fenywod 16-74 oed wedi dioddef cam-drin domestig nad oedd yn rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 3.3% o ddynion. Yn yr un modd, roedd 1.3% o fenywod 16-74 oed wedi dioddef stelcian domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 0.7% o ddynion.<br><br>Canfu adroddiad gan Refuge yn 2014 fod y ffyrdd y mae menywod yn profi cam-drin domestig hefyd yn wahanol: mae dwysedd a difrifoldeb y trais a ddefnyddir gan gyflawnwyr gwrywaidd yn fwy eithafol ac yn fwy tebygol o gynnwys trais corfforol, bygythiadau ac aflonyddu. Canfu'r adroddiad fod menywod sy'n dioddef cam-drin domestig yn profi canlyniadau seicolegol mwy difrifol na dioddefwyr gwrywaidd ac yn llawer mwy tebygol o ofni eu partneriaid.<br><br>Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, roedd y dioddefwr yn fenywaidd yn 74.1% o'r holl droseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu,.<br>Roedd y gyfran hon o ddioddefwyr benywaidd, o gymharu â dioddefwyr gwrywaidd, yn debyg yn y rhan fwyaf o'r categorïau o droseddau, ac eithrio | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | troseddau rhywiol, ac roedd 94.1% o'r dioddefwyr hynny yn fenywod (yn seiliedig ar 28 o 44 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr) .<br>O'r 362 o ddynladdiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2020, mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddynladdiadau yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod 276 o'r dioddefwyr yn fenywod (dioddefwyr 16 oed a throsodd).<br><br>Mae'r data'n awgrymu bod dynion yn fwy tebygol o gyflawni cam-drin domestig na menywod. Dangosodd data ar gyfer 2019/20 o System Rheoli Achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron, o'r rhai a erlynwyd am gam-drin domestig, lle cofnodwyd rhyw'r cyflawnwr, fod 92% yn ddynion ac 8% yn fenywod (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cam-drin domestig a system gyfiawnder droseddol Cymru a Lloegr, Tachwedd 2020).<br><br>Canfu adroddiad yn 2017 (Amnesty: Social media can be a dangerous place for women) fod 1 o bob 5 menyw (21%) wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth neu aflonyddu ar-lein, a bod 1 o bob 10 (10%) wedi profi hynny fwy nag unwaith.<br><br>Mae menywod yn fwy tebygol o wneud cwyn am gam-drin domestig na dynion. Pan gofnodwyd rhyw'r dioddefwr mewn erlyniadau sy'n gysylltiedig â cham-drin | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | domestig, roedd 82.3% yn fenywod a 17.7% yn ddynion (Adroddiad Trais yn erbyn menywod a merched 2018-19).<br><br>Mae dynion hefyd yn dioddef cam-drin domestig. Gall stigma ac ofn teimlo'n llai o ddyn wneud dynion yn llai tebygol o roi gwybod am gam-drin domestig na menywod.<br><br>Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014/15) yn dangos bod dioddefwyr gwrywaidd (39%) dros dair gwaith mor debygol â rhai benywaidd (12%) i beidio â dweud wrth neb am y cam-drin y maent yn ei ddioddef gan eu partner. Dim ond 10% o ddioddefwyr gwrywaidd fydd yn dweud wrth yr heddlu (26% i fenywod), dim ond 23% fydd yn dweud wrth berson mewn rôl swyddogol (43% ar gyfer menywod) a dim ond 11% (23% i fenywod) fydd yn dweud wrth weithiwr iechyd proffesiynol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ffocws ar droseddau treisgar a throseddau rhywiol 2014/15)<br><br>Yn Lloegr, nodwyd anffurfio organau benywod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 mewn 5,395 o fenywod a merched unigol a wnaeth ymweld ag Ymddiriedolaethau'r GIG neu feddygon teulu, (Adroddiad Blynyddol Digidol FGM y GIG). | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb. | Mae pobl sydd â rhai cyfeiriadeddau rhywiol yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin domestig. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. | Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 yn dangos canran y dynion a'r menywod 16-74 oed a oedd wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl cyfeiriadedd rhywiol:<br>• 3.5% o ddynion a 6.9% o fenywod a nododd eu bod yn heterorywiol neu'n syth;<br>• 6.0% o ddynion a 12.2% o fenywod a nododd eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd;<br>• 7.3% o ddynion a 19.6% o fenywod a nododd eu bod yn ddeurywiol.<br><br>Canfu ymchwil Stonewall fod un o bob pedair menyw lesbiaidd a deurywiol wedi profi cam-drin domestig mewn perthynas. Mae dwy ran o dair o'r rheiny'n dweud bod y cyflawnwr yn fenyw, dywedodd traean fod y cyflawnwr yn ddyn. Dywedodd bron i hanner (49%) yr holl ddynion hoyw a deurywiol eu bod wedi profi o leiaf un digwyddiad o gam-drin domestig gan aelod o'r teulu neu bartner ers eu bod yn 16 oed.<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymunedau LHDT yn wynebu rhwystrau cymhleth wrth geisio cael cymorth ar gyfer cam-drin domestig, gyda 60-80% o ddioddefwyr LHDT+ erioed wedi dweud wrth yr heddlu am achosion nac | Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi ceisio cael eu hamddiffyn gan wasanaethau (arolwg Galop ar flaenoriaethau LHDT ar gyfer Deddf Trais a Cham-drin Domestig Llywodraeth y DU).<br><br>Canfu arolwg cenedlaethol o bobl LHDT a gynhaliwyd yn 2017 fod ymatebwyr traws yn adrodd am gyfradd uwch o lawer o'r rhan fwyaf o fathau o achosion a oedd yn ymwneud â phobl yr oeddent yn byw gyda nhw. Roedd dynion traws yn arbennig yn fwy tebygol o fod wedi profi digwyddiad na menywod traws ac ymatebwyr anneuaidd. | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Bwriedir Strategaeth Trais a Cham-drin ar gyfer pawb.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl dan anfantais mewn perthynas â'u statws priodasol neu bartneriaeth sifil. | Disgwylir i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol ar holl oroeswyr trais a cham-drin, p'un a ydynt yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'r un o'r ddau.<br><br>Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020[4] fod oedolion 16-74 oed a oedd wedi ysgaru neu wahanu yn fwy tebygol o fod wedi dioddef cam-drin domestig na'r rhai a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil, yn cyd-fyw, yn sengl neu'n weddw. Roedd dynion a menywod a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn llai tebygol o ddioddef cam-drin domestig. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar bobl mewn perthynas â'u statws priodasol neu bartneriaeth sifil.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

4

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Bwriedir i'r Strategaeth Trais a Cham-drin gwmpasu pob oedran, er bod rhai ystodau oedran yn fwy tebygol o ddioddef trais a cham-drin.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi plant a phobl ifanc dan anfantais. | Gall gweld a byw gyda cham-drin domestig gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc.<br><br>Yn ogystal â'r ystyriaeth a nodir yn y Strategaeth, mae gan blant a phobl ifanc hawl i fod yn ddiogel o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau a'r cyngor ymarfer cysylltiedig.<br><br>Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020[5] fod menywod 16-19 oed yn llawer mwy tebygol o ddioddef unrhyw fath o gam-drin domestig na menywod hŷn. Prin oedd y gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran i ddynion.<br><br>Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, o'r menywod hynny a brofodd gamdriniaeth cyn 16 oed, roedd 22% wedi profi dau fath o gamdriniaeth:<br>• Cam-drin emosiynol, corfforol a rhywiol yn ogystal â gweld cam-drin domestig (8%)<br>• Cam-drin emosiynol a gweld trais neu gam-drin domestig (6%).<br><br>Dangosodd Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Merched Gwasanaeth Erlyn | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

5

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y Goron 2018-19 (lle cofnodwyd oedran) oedran y rhai a gwynodd fel a ganlyn:<br>10-13 0.1%<br>14-17 2.0%<br>18-24 16.9%<br>25-59 78.8% | |
| Aelwydydd ag incwm isel | Bwriedir i'r Strategaeth Trais a Cham-drin gynnwys pawb, waeth beth fo incwm eu cartref.<br><br>Yn gyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn rhoi pobl ar aelwydydd ag incwm isel dan anfantais. | Canfu ymchwil 2019/20 yn Lloegr fod tua 1 o bob 11 cartref (8.7%) a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cofnodi cam-drin domestig fel y prif reswm dros eu sefyllfa. | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar aelwydydd ag incwm isel.<br><br>Wrth i ni fonitro cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a byddwn yn cymryd camau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop, sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, wedi ei gwneud yn glir y gall cam-drin domestig ddod o fewn cwmpas Erthyglau 2, 3, 8 a 14 (rhagor o fanylion yn y tabl canlynol).

Mae Rhaglen Lywodraethu bresennol Llywodraeth Cymru yn nodi ymrwymiad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru. Hefyd, mae gweinyddiaethau blaenorol wedi datgan eu hymrwymiad i Gonfensiwn Istanbwl. Mae'r Strategaeth hon yn cryfhau ein hymrwymiad i egwyddorion y Confensiwn drwy nodi mesurau pellach sy'n uniongyrchol berthnasol i ddarpariaethau'r Confensiwn.

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wrth arfer eu holl swyddogaethau, yn ur un modd â phob awdurdod cyhoeddus arall. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cefnogi'r egwyddorion a geir yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn cynnwys nod 5 - Sicrhau Cydraddoldeb Rhywiol a grymuso pob menyw a merch, sy'n cynnwys targed mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 2**<br>Yr hawl i fywyd | Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Erthygl 2. | Mae Erthygl 2 yn golygu na chaiff neb ddod â bywyd person arall i ben ac y dylai'r llywodraeth gymryd camau priodol i ddiogelu bywyd.<br><br>Wrth weithio i atal trais a cham-drin, rydym yn gweithio i ddiogelu bywyd. | |
| **Erthygl 3**<br>Yr hawl i ryddid rhag arteithio a thriniaeth greulon neu ddiraddiol | Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Erthygl 3. | Mae Erthygl 3 yn nodi'r hawl i ryddid rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol.<br>Triniaeth greulon yw triniaeth sy'n achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol dwys.<br>Diffinnir triniaeth ddiraddiol fel un hynod o iselhaol a diurddas.<br><br>Nod Strategaeth Trais a Cham-drin yw atal pob math o drais a cham-drin, a all gynnwys trin dioddefwyr yn greulon a diraddiol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 8**<br>Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth | Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Erthygl 8. | Mae Erthygl 8 yn diogelu'r hawl i fywyd teuluol, sy'n golygu'r hawl i fwynhau perthnasoedd teuluol a byw gyda theulu (neu lle nad yw hyn yn bosibl, i gael cyswllt rheolaidd).<br>Mae hefyd yn nodi hawl unigolyn i fwynhau ei gartref yn heddychlon.<br>Mae hefyd yn cynnwys yr hawl i fywyd preifat, sy'n cynnwys yr hawl i wneud cyfeillion ac i greu perthnasoedd eraill.<br><br>Nod y Strategaeth yw atal pob math o drais a cham-drin, a ddylai fod yn effaith gadarnhaol. | |
| **Erthygl 14**<br>Gwahardd gwahaniaethu ynghylch yr hawliau hyn a'r elfennau hyn o ryddid | Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Erthygl 14. | Dywed Erthygl 14 fod yn rhaid cymhwyso'r holl hawliau yn y Confensiwn heb wahaniaethu.<br><br>Mae Strategaeth Trais a Cham-drin yn strategaeth i bawb. | |

## Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

| **Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| Preswylio | Ni fydd y Strategaeth yn cael unrhyw effaith ar hawliau preswylio. | | Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol. |
| Cydnabod cymwysterau proffesiynol ei gilydd | Ni fydd y Strategaeth yn cael unrhyw effaith ar y gydnabyddiaeth i gymwysterau proffesiynol ei gilydd. | | Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol. |
| Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol | Gall y Strategaeth gael effaith gadarnhaol ar rai gwasanaethau nawdd cymdeithasol, megis mynediad at wasanaethau i gefnogi goroeswyr trais a cham-drin. | Un o'r blaenoriaethau uniongyrchol yn y Strategaeth yw parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i ddod o hyd i atebion priodol i ddiwallu anghenion goroeswyr trais a cham-drin sydd heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus oherwydd statws mewnfudo, yn unol â Chynllun Gweithredu Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru. | Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol. |
| Triniaeth gyfartal | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael unrhyw effaith ar driniaeth gyfartal. | | Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol. |
| Hawliau Gweithwyr | Nid ydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth yn cael unrhyw effaith ar hawliau gweithwyr. | | Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol. |